Strategaeth 5 Mlynedd Hyrwyddo'r Gymraeg **2022 - 2027**

Cyngor Dinas Casnewydd

Gweld

Clywed

Dysgu

Defnyddio

Caru

1. Cyflwyniad

Croeso i ail Strategaeth 5 Mlynedd Hyrwyddo'r Gymraeg Cyngor Dinas Casnewydd, sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y ddinas.

Nod y Strategaeth hon yw bodloni ein gofynion statudol o dan ddeddfwriaeth y Gymraeg, ond hefyd i gefnogi targed uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer twf cenedlaethol – 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – drwy osod ein targedau ein hunain, wedi'u hategu gan gamau gweithredu sy'n berthnasol i Gasnewydd.

Dyhead hirdymor y Cyngor yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd, codi ymwybyddiaeth, a cynyddu gweledded y Gymraeg ar draws ein holl gymunedau. Rydym am gynnig cyfleoedd i'r rhai sydd â phob lefel o'r Gymraeg i ymarfer a siarad Cymraeg mewn amgylchedd diogel, cyfeillgar a chefnogol, ac i ymgysylltu â'r rhai nad ydynt efallai yn ymwybodol o'r iaith na'i manteision.

Fel awdurdod lleol, gwyddom mai un o'r prif ffyrdd y gallwn gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yw datblygu'r ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg. Felly, mae'r strategaeth hon wedi'i halinio'n agos â'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd. (CSGA)

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod angen i'n Strategaeth gynyddu cyfleoedd pawb i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae ein gwaith dros y 5 mlynedd nesaf nid yn unig yn ymwneud â chynyddu nifer y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn ceisio ysbrydoli a chefnogi dysgwyr Cymraeg ar bob lefel, ac ystyried sut mae ein gweithlu a'n gwasanaethau ein hunain yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae Casnewydd yn ddinas Gymreig gyda chymunedau amlddiwylliannol, amlieithog cyfoethog. Rydym am ddathlu'r Gymraeg fel rhan o'n hunaniaeth gyffredin, a chynyddu cyfleoedd i bawb weld, clywed, dysgu, defnyddio a charu ein hiaith genedlaethol.

2. Cyd-destun Deddfwriaethol

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoliadau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015).

Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Casnewydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Casnewydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'. Mae Safon 145 (isod) yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymhlith materion eraill)
(a) **targed** (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) **datganiad** sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi strategaeth (neu o gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd yn ogystal â chamau penodol i hwyluso defnyddio'r iaith yn unol â strategaethau amrywiol y Gymraeg Llywodraeth Cymru, ond yn benodol Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg sy'n nodi gweledigaeth ar gyfer sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050:

"[yn 2050] mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cyrraedd miliwn, ac fe'i defnyddir ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth tuag at yr iaith a chydnabyddiaeth gan bawb o'i chyfraniad at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru"

3. Cyd-destun Polisi

Yn ogystal â bodloni ein gofynion o dan Safonau'r Gymraeg, mae'r Strategaeth hon yn cyd-fynd ag ystod o strategaethau ac amcanion cenedlaethol a lleol gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr Cymraeg
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Nod Llesiant 'Cymru o ddiwylliannau bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu'
- Mwy na Geiriau – Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Dinas Casnewydd
- Strategaeth Ddigidol Cyngor Dinas Casnewydd
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Dinas Casnewydd

- Cynllun Technoleg Iaith Cymru Llywodraeth Cymru

Effaith COVID-19

Mae'r Strategaeth hon hefyd yn ymwybodol o'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar gyfleoedd i bobl yng Nghasnewydd ddysgu a defnyddio'r Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau Cymraeg. Er bod rhai darpariaethau cyfrwng Cymraeg wedi gallu addasu'n dda i gyfyngiadau, er enghraifft trwy symud i weithgareddau ar-lein / rhithiol, wedi gofyn am farn partneriaid iaith Gymraeg, cofnodwyd yr effeithiau canlynol yn Asesiad Effaith Cymunedol y cyngor::

- Amharwyd ar wasanaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg – roddwyd llawer o staff ar ffyrlo ac mae trefniadau ariannu yn y dyfodol yn aneglur o hyd, wedi'u dwysáu gan ystod o faterion yn atal plant rhag dychwelyd i leoliadau gofal plant.
- Mae hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar nifer y plant sy'n mynychu meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg, gan arwain felly at lai o blant yn cael eu derbyn mewn ysgolion Cymraeg yn y ddinas.
- Bu diffyg cyfranogiad ymhlith plant mewn ysgolion Cymraeg o ran dysgu digidol, ac anawsterau i rieni sy'n siarad Saesneg/iaith arall wrth gefnogi dysgu yn y cartref.
- Efallai na chafodd plant mewn teuluoedd uniaith Saesneg dim cysylltiad â'r Gymraeg yn ystod y cyfnod clo neu ddim o gwbl, gan effeithio ar gaffaeliad iaith.
- Wrth edrych i'r dyfodol, efallai y bydd rhieni sy'n gwneud cais am leoedd ysgol yn gweld y Gymraeg yn faich ychwanegol ar blant sy'n gorfod dal i fyny mewn pynciau allweddol eraill.
- Prin fu'r cyfleoedd i ddysgwyr sy'n oedolion ymarfer sgiliau Cymraeg, yn enwedig os oedd hyn yn arfer digwydd mewn lleoliadau cymunedol anffurfiol, neu drwy'r gweithle.

4. Ein Targed 5 Mlynedd

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor yn nodi targedau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y plant mewn addysg Gymraeg. Mae'n ofynnol i'r cyngor gynyddu nifer y disgyblion mewn addysg Gymraeg 6% dros y 10 mlynedd nesaf (erbyn 2032):

Yn 2021, 5.1% o'r holl ddisgyblion blwyddyn 1 a oedd mewn Addysg Gymraeg, sef 101 o ddisgyblion. Erbyn 2032, hoffem i hyn fod yn 11.1% o'r holl ddisgyblion blwyddyn 1 a fydd tua 221 o ddisgyblion.

Mae ein CSCA wedi'i rannu'n 7 maes deilliant i gefnogi'r gwaith hwn, pob un ohonynt â gwaelodlin, targed 5 mlynedd a tharged 10 mlynedd:

Deilliant 1: Mae mwy o blant meithrin yn dysgu trwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	**Targed 5 mlynedd**	**Targed 10 mlynedd**
5.4% (84)	8.6% (136)	11.1% (175)
Plant meithrin a gynhelir yn dysgu trwy'r Gymraeg[1]		

Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn yn dysgu trwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	**Targed 5 mlynedd**	**Targed 10 mlynedd**
5.7% (113)	8.6% (171)	11.1% (220)
o blant dosbarth derbyn yn dysgu trwy'r Gymraeg		

Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr yn gwella'u sgiliau Cymraeg ar ôl symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd		
Gwaelodlin	**Targed 5 mlynedd**	**Targed 10 mlynedd**
96%	96%	96%
o ddysgwyr yn gwella'u sgiliau Cymraeg ar ôl symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd		

Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer arholiadau trwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	**Targed 5 mlynedd**	**Targed 10 mlynedd**
100% (144)	100% (317)	100% (342)
o ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10-13 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn sefyll arholiad trwy'r Gymraeg		
93.6% (1624)	96.2% (1952)	96.3% (1941)
o ddysgwyr yn dilyn TGAU yn y Gymraeg		
144	600	1000

Deilliant 5: Mwy o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i ystafell ddosbarth yr ysgol		
Gwaelodlin	**Targed 5 mlynedd**	**Targed 10 mlynedd**
0.0% (0)	75% (30)	100% (40)
o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi cyrraedd Aur mewn Cymraeg Campus[3]		

Deilliant 6: Cynnydd mewn dosbarthiadau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n dysgu trwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	**Targed 5 mlynedd**	**Targed 10 mlynedd**
0	10	20[4]
lleoedd ADY pwrpasol ar gyfer disgyblion sy'n dysgu trwy'r Gymraeg		

[1] Nid yw'n cynnwys Codi'n 3 oed
[2] Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog
[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/siarter-iaith
[4] Os oes angen,

Deilliant 7: Mwy o athrawon a staff yn gallu addysgu Cymraeg a thrwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	**Targed 5 mlynedd**	**Targed 10 mlynedd**
Gweithio i helpu athrawon a staff i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer swyddi lle mae angen siarad Cymraeg	Sicrhau bod gan bob ysgol ddigon o staff sy'n gallu siarad Cymraeg pan fo angen	Disgyblion cyfrwng Cymraeg yn dod yn ôl fel athrawon yn Ysgolion Casnewydd
Arolwg i weld pwy sydd â sgiliau Cymraeg mewn ysgolion	Defnyddio canlyniadau'r arolwg i gynllunio'r hyn sydd ei angen arnom	-
6	12	12
Staff Coleg Gwent yn gallu addysgu'n rhugl trwy'r Gymraeg		

5. Ein Datganiad

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i gynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg yng Nghasnewydd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a nodir yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid (gan gynnwys aelodau o'n Fforwm Iaith Gymraeg a'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg) i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd yn gyson ac yn effeithiol.

Mae ein Strategaeth, a'i chynllun cyflawni, wedi'i strwythuro o amgylch 3 thema graidd:

- Cymunedau a Diwylliant
- Cyflogaeth a Sgiliau
- Addysg

Mae hon yn strategaeth i bawb yng Nghasnewydd, ac fe'i datblygwyd yn seiliedig ar farn pobl Casnewydd, yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Mae'n seiliedig ar amrywiaeth o gamau gweithredu sy'n ymwneud â'n themâu craidd.

Bydd Cyflawni'r Strategaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth effeithiol a chyfrifoldebau a rennir ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, sydd i gyd yn cyfrannu at sefydlu a dathlu Casnewydd fel dinas amrywiol y mae ei chymunedau'n rhannu ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig.

Mae rhagor o wybodaeth am ein Cynllun Addysg, a sut y caiff ein targedau Addysg eu cyrraedd, ar gael yma

6. Proffil y Gymraeg yng Nghasnewydd

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol Casnewydd ac mae'n cael ei defnyddio gan lawer o bobl bob dydd yn eu cartrefi, eu cymunedau a lle maent yn gweithio. Mae'r adran hon o'n strategaeth yn defnyddio data o'r Cyfrifiad diwethaf (2011), ond rydym yn cydnabod y bydd data cyfrifiad

newydd ar gael yn 2022. Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein cynlluniau gweithredu yn ôl yr angen i adlewyrchu unrhyw newidiadau i broffil ieithyddol y ddinas.

Data Poblogaeth

Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod canran y bobl 3+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg ym mhob ardal ledled Gwent yn is na chyfartaledd Cymru (19.01%). Roedd hyn yn amrywio o 11.19% yng Nghaerffili i 7.85% ym Mlaenau Gwent, er y gallai'r ffigurau hyn fod yn wahanol iawn yn y Cyfrifiad nesaf. Yng Nghasnewydd, roedd y ffigur hwn yn 9.3%



Rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011 bu gostyngiad o 0.7% yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed yng Nghasnewydd, o'i gymharu â gostyngiad o 1.8% ledled Cymru:

	2001				**2011**			
	Yn gallu siarad Cymraeg	**Ddim yn gallu siarad Cymraeg**	**Cyfanswm**	**%**	**Yn gallu siarad Cymraeg**	**Ddim yn gallu siarad Cymraeg**	**Cyfanswm**	**%**
Casnewydd	13,135	118,685	131,820	10	13,002	126,847	139,849	9.3
Cymru	582,368	2,223,333	2,805,701	20.8	562,016	2,393,825	2,955,841	19

Yng Nghymru, mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ABB) hefyd yn cynnwys cwestiynau am allu pobl yn y Gymraeg a pha mor aml y maent yn siarad Cymraeg. Er bod Llywodraeth Cymru yn glir y dylid defnyddio data'r Cyfrifiad i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg, mae'n ddefnyddiol ystyried yr ABB i edrych ar dueddiadau o ran

y Gymraeg rhwng cyfrifiadau. Yn hanesyddol cofnodir bod llawer mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn yr ABB nag yn y Cyfrifiad:

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Caerffili	23.4	24.8	21.8	22.0	23.7	23.6	24.6
Blaenau Gwent	18.0	17.8	17.8	17.5	19.7	17.1	16.1
Torfaen	15.5	16.0	18.3	19.0	17.7	18.0	18.5
Sir Fynwy	17.1	16.7	16.8	16.7	17.6	17.5	16.5
Casnewydd	23.3	19.6	19.8	20.6	20.9	17.8	20.5
Cymru	27.8	27.3	28.8	29.0	29.8	28.4	29.1

Dangosodd data'r Cyfrifiad hefyd fod grwpiau oedran rhwng 20 a 39 oed yng Nghasnewydd wedi gweld cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg, tra bod pob grŵp oedran dros 40 oed yn dangos gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg:

	2001 %	**2011**	**% Gwah**	
3 - 4 oed	9.2	14.0	+4.8	↑
5 - 9 oed	36.3	34.8	-1.5	↓
10 – 14 oed	46.1	42.0	-4.1	↓
15 – 19 oed	21.4	23.0	+1.6	↑
20 - 24 oed	3.8	7.8	+4.0	↑
25 - 29 oed	3.4	4.9	+1.5	↑
30 - 34 oed	2.8	3.3	+0.5	↑
35 - 39 oed	2.6	3.1	+0.5	↑
40 - 44 oed	2.7	2.6	-0.1	↓
45 - 49 oed	2.8	2.4	-0.4	↓
50 - 54 oed	2.7	2.4	-0.3	↓
55 - 59 oed	2.6	1.9	-0.7	↓
60 - 64 oed	2.1	1.8	-0.3	↓
65 - 69 oed	2.9	1.7	-1.2	↓
70 - 74 oed	2.3	1.4	-0.9	↓
75 - 79 oed	2.6	2.0	-0.6	↓
80+ oed	2.2	1.8	-0.4	↓
Cyfanswm	**10.0**	**9.3**	**-0.7**	↓

Data Addysg

A. Addysg cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion Cymraeg yng Nghasnewydd dros y 5 mlynedd diwethaf sy'n dangos cynnydd cyffredinol.

Er bod gostyngiad yn niferoedd yr ysgolion cynradd, disgwylir y bydd agor Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn gwirio'r colled hon dros y pum mlynedd nesaf unwaith y bo'r ysgol yn symud i'w lleoliad parhaol ym Mhilgwenlli. Bydd Ysgol Bro Teyrnon hefyd yn agor uned drochi gynradd dros dro ar ran yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y clwstwr Cymraeg.

Ar lefel uwchradd, mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wedi gweld cynnydd blynyddol yn nifer y disgyblion ers ei hagor fel ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf Casnewydd yn 2016:

	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22
Ysgol Gymraeg Casnewydd	355	360	377	386	379	377
Ysgol Gymraeg Ifor Hael	213	195	196	200	201	189
Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon	157	178	206	200	207	205
Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli						7
Cyfanswm Disgyblion Cynradd	725	733	779	786	787	778
Ysgol Gyfun Gwent Is Coed	81	159	248	351	451	505
Ysgol Gyfun Gwynllyw	234	217	179	149	92	50
Cyfanswm Disgyblion Uwchradd	81	159	248	351	451	505
Cyfanswm Disgyblion	1846	2001	2233	2423	2568	2616

B. Lleoedd meithrin a gynhelir

Blwyddyn CYBLD	**2017**		**2018**		**2019**		**2020**		**2021**	
Cohort	1624		1595		1634		1628		1564	
Disgyblion IG %	79	4.9%	78	4.9%	76	4.7%	96	5.9%	84	5.4%
Lleoedd ar gael	110		112		112		112		112	
Lleoedd a lenwyd	71.8%		69.6%		67.9%		85.7%		75.0%	

Nid yw'r tabl yn cynnwys 3 disgybl sy'n codi.

Agorodd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ar ei safle presennol gyda 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar gael ym mis Medi 2021 - ac felly ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 mae 160 o leoedd Meithrin Cymraeg rhan-amser ar gael ledled

Casnewydd, ac mae 94 ohonynt wedi'u dyrannu[5]. Disgwylir i'r nifer hwn gynyddu erbyn CYBLD 2022 pan fydd llefydd Tymor y Gwanwyn Yn Codi'n Dair Oed wedi'u llenwi.

C. Lleoedd Meithrin Nas Cynhelir a Darpariaethau Mudiad Meithrin

Mae gan Gasnewydd ddwy ddarpariaeth Mudiad Meithrin, Cylch Meithrin Brynglas a Chylch Meithrin Y Delyn ar gyfer 19 a 38 o blant yn y drefn honno. Mae'r ddau hefyd wedi'u cofrestru i ofalu am blant dyflwydd oed a'r rhai sy'n gymwys i gael Cynnig Gofal Plant i Gymru, felly gall unrhyw un o'r lleoedd a lanwyd gynnwys y plant hynny.

Cylch Meithrin Y Delyn oedd cylch chwarae cyntaf Casnewydd nas cynhelir a llwyddodd i ddarparu addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen o fis Chwefror 2021. Cafodd Cylch Meithrin Brynglas hefyd ei gofrestru fel darparwr nas cynhelir o fis Medi 2021. Fel yn achos y cynnig gofal plant, bydd unrhyw le nas cynhelir a lanwyd yn cael ei gynnwys yn erbyn y nifer uchaf y mae'r lleoliad wedi'i gofrestru ar ei gyfer.

		Tachwedd 2020	Mehefin 2021
Cylch Meithrin Bryn-glas	**Derbyn cynnig o le**	11	13
	Lleoedd Cofrestredig	19	19
	Lleoedd a lenwyd	57.9%	68.4%
Cylch Meithrin Y Delyn	**Derbyn cynnig o le**	15	23*
	Lleoedd ar gael	38	38
	Lleoedd a lenwyd	39.5%	60.5%

*5 yn cael lle nas cynhelir wedi ei ariannu

Mae nifer y plant oed meithrin sy'n symud ymlaen i addysg Gymraeg yng Nghasnewydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac wedi gostwng o 75% i 59.2% rhwng 2019 a 2020. Gellir nodi amrywiaeth o ffactorau dylanwadol, gan gynnwys lleoliad ysgolion cynradd Cymraeg o'u cymharu â grwpiau Meithrin, effaith COVID-19 a'r diffyg llefydd codi'n 3 oed mewn ysgolion cynradd Cymraeg.

Mae'r gyfradd drosglwyddo rhwng ysgolion cynradd Cymraeg ac ysgolion uwchradd Cymraeg yn parhau'n uchel, tua 97%.

7. Ein Hymgynghoriad

Mae'r Strategaeth hon wedi'i llywio gan y bobl sy'n byw yng Nghasnewydd, rhanddeiliaid y Gymraeg ac adborth gan bartneriaid mewnol ac allanol. Yn ystod 2021 lansiwyd nifer o arolygon cymunedol gennym i ddarganfod mwy am yr hyn yr oedd pobl yng Nghasnewydd yn ei feddwl am y Gymraeg, i lywio ffocws ein themâu strategol.

[5] Cywir ar 28/06/2021

Canfyddiadau allweddol o'n **harolwg cymunedol SNAP** yn dangos hynny:

- Ni allai 55% o'r ymatebwyr siarad na deall Cymraeg
- Roedd 6% o'r ymatebwyr yn gallu siarad neu ddeall Cymraeg
- Nododd 14% o'r ymatebwyr eu bod yn gallu siarad Cymraeg ond nad oeddent yn credu ei fod yn ddigon da i'w ddefnyddio
- Roedd 8% o'r ymatebwyr yn dysgu Cymraeg
- Nododd 55% o'r ymatebwyr na allai unrhyw beth eu hannog i ddysgu Cymraeg
- Nododd 30% o'r ymatebwyr y gallai gwersi Cymraeg am ddim eu hannog i ddysgu Cymraeg
- Nododd 18% o'r ymatebwyr y gallai clywed mwy o Gymraeg yn y gymuned, neu gael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, eu hannog i ddysgu Cymraeg

O'r rhai oedd wedi cysylltu â'r cyngor yn y Gymraeg:

- Roedd 25% o'r ymatebwyr wedi cael mynediad i Ganolfan Gyswllt y cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg
- Roedd 25% o'r ymatebwyr wedi defnyddio gwasanaethau Addysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Roedd 50% o'r ymatebwyr wedi cael mynediad at wasanaeth arall drwy gyfrwng y Gymraeg[6]
- Roedd 73% o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod gan y cyngor gyfrifoldebau statudol o ran y Gymraeg
- Pan ofynnwyd iddynt pryd a ble y gwelon nhw neu y clywon nhw'r Gymraeg, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent bron byth yn gweld y Gymraeg yng Nghasnewydd, a phan oeddent, roedd hyn yn bennaf ar arwyddion cyhoeddus
- Nododd 57% o'r ymatebwyr nad oeddent yn credu ei bod yn bwysig cael cyfleoedd i ddefnyddio neu glywed Cymraeg yn y gymuned o'i gymharu â 43% a oedd
- Dwedodd 84% o bobl nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw grwpiau neu weithgareddau cymunedol Cymraeg eu hiaith yng Nghasnewydd

Canfyddiadau allweddol o'n **harolwg Wifi bys** yn dangos bod:

- Nid oedd 72% o ymatebwyr yn siarad Cymraeg
- Roedd 28% o ymatebwyr yn siarad Cymraeg

- Roedd tua hanner (54%) o'n hymatebwyr wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol

[6] cyfanswm yr ymatebion i gwestiynau ar wahân yn yr arolwg yw mwy na 100%

- O'r rhai a ddysgodd Gymraeg yn yr ysgol, dim ond 16% o'r ymatebwyr sy'n dal i ddefnyddio eu sgiliau ieithyddol

- Dywedodd 28% o'r ymatebwyr a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol nad ydynt bellach yn defnyddio eu sgiliau oherwydd eu bod wedi anghofio, neu oherwydd eu bod yn ddihyder

- Dywedodd ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg eu bod yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn y coleg, ac yna gartref, ysgol a gwaith

- Dywedodd 48% o ymatebwyr di-Gymraeg na fyddai dim byd yn eu hannog i ddysgu Cymraeg
- Dywedodd 22% o ymatebwyr di-Gymraeg y gallent gael eu hannog i ddysgu Cymraeg trwy waith
- Dywedodd 19% o ymatebwyr di-Gymraeg y gallai cysylltiadau teuluol eu hannog i siarad Cymraeg

- Dywedodd 32% o'r ymatebwyr y byddent yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, o gymharu â 43% na fyddai, a 25% nad oeddent yn gwybod

- Nid oedd 50% o'r ymatebwyr yn gwybod bod gan y cyngor strategaeth i hybu'r Gymraeg
- Dywedodd 53% o ymatebwyr nad oeddent byth yn clywed Cymraeg yng Nghasnewydd, 29% yn achlysurol, a 18% yn aml

Mae'n hyfryd clywed Cymraeg yn cael ei siarad pan dwi allan. Mae hyn yn digwydd yng Nghaerdydd ac ardaloedd Cymraeg eu hiaith yng Nghymru ac mae'n fy annog i siarad Cymraeg hefyd.

Mae [y Gymraeg] yn cael ei hyrwyddo'n llawer gormod o ystyried y galw gwirioneddol sy'n bodoli yn y boblogaeth gyffredinol. Er na fyddwn byth yn atal rhywun rhag dysgu neu siarad Cymraeg allan o ddewis, dylai barhau i fod yn ddewis

Credaf mai prin iawn yw'r cyfleoedd am ddim i bobl o gefndiroedd lleiafrifol ddysgu Cymraeg, yn enwedig mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid neu'r rhai a allai fod wedi colli'r cyfle mewn ysgol gynradd neu uwchradd

Mae iaith yn gysylltiedig ag ymdeimlad o berthyn, hunaniaeth a chymuned ac felly'n bwysig. Hoffwn ddysgu cael sgyrsiau sylfaenol yn Gymraeg, a chael dealltwriaeth 'fras' o wybodaeth yn Gymraeg ar arwyddion ac yn y blaen



8. Ein Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd

Ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yw:

"Gweld, Clywed, Dysgu, Defnyddio, Caru"

Pawb yng Nghasnewydd yn gallu defnyddio, gweld a chlywed y Gymraeg fel iaith fyw ym mhob rhan o fywyd ar draws y ddinas

Themâu Strategaeth y Gymraeg

Rydym wedi nodi 3 thema strategol i wireddu ein gweledigaeth, gan ystyried canfyddiadau ein ymgynghoriad, proffil ieithyddol y ddinas, ein blaenoriaethau Cymraeg presennol a'n dyheadau ar gyfer twf y Gymraeg.

Thema 1: Cymunedau a Diwylliant

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws ein cymunedau, normaleiddio'r Gymraeg fel ei bod yn cael ei chlywed a'i gweld y tu allan i amgylcheddau ffurfiol fel ysgol, coleg neu'r gweithle.

Gyda dros 90% o rieni plant mewn addysg Gymraeg yn ddi-Gymraeg, ni allwn ddibynnu ar ein gwaith gydag ysgolion i drosglwyddo iaith yn effeithiol, ac mae angen ystyried ffyrdd eraill o gynyddu gweledegdd.

Mae'r thema hon hefyd yn ceisio cynnwys defnyddwyr anhraddodiadol y Gymraeg, gan gynnwys ein cymunedau lleiafrifoedd ethnig, ac ehangu ein partneriaethau cymunedol. Rydym am ehangu'r partneriaid yr ydym yn gweithio gyda nhw i

hyrwyddo'r Gymraeg, gan adeiladu ar ein gwaith gyda Fforwm Iaith Gymraeg Casnewydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol eraill, fel timau chwaraeon a phartneriaid yn y sector cyhoeddus.

Byddwn yn:

- ✓ Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol a grwpiau cymunedol i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw yng Nghasnewydd
- ✓ Creu a chefnogi cyfleoedd cymdeithasol i bobl ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg
- ✓ Hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith i bawb
- ✓ Datblygu Casnewydd sy'n ymwybodol o'i diwylliant a'i hanes Cymraeg
- ✓ Datblygu ymdeimlad o le sydd wedi ei drwytho yn y Gymraeg a'r Diwylliant Cymraeg
- ✓ Sicrhau bod cymunedau'n gallu cael mynediad cydradd at wasanaethau Cymraeg a Saesneg y cyngor
- ✓ Hyrwyddo dwyieithrwydd fel rhywbeth sy'n gwbl naturiol
- ✓ Ceisio diogelu a meithrin y Gymraeg i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau

Thema 2: Addysg

Mae'r thema hon yn sicrhau bod gweithgareddau Cymraeg ledled y ddinas yn cyd-fynd â'r targedau a nodir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac yn eu cefnogi. Rydym am i bob teulu fod yn ymwybodol o opsiynau addysg Gymraeg ledled Casnewydd, ac i ddeall manteision derbyn addysg ddwyieithog.

Bydd y thema hon hefyd yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni plant mewn addysg Gymraeg, yn enwedig y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Byddwn yn:

- ✓ Helpu i ysbrydoli disgyblion i ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- ✓ Hyrwyddo manteision dysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg
- ✓ Edrych ar ffyrdd o gefnogi rhieni di-Gymraeg plant sydd mewn addysg Gymraeg
- ✓ Ceisio cynnydd parhaus yn nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg
- ✓ Gweithio gyda chydweithwyr mewn Addysg Bellach ac uwch ar draws Casnewydd i edrych ar gyfleoedd posibl i hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg a chyfleoedd dysgu
- ✓ Gweithio gyda rhanddeiliaid, cydweithwyr, ac aelodau'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg (WEF) i gau'r bylchau mewn sgiliau Cymraeg ar draws y blynyddoedd cynnar ac addysg

Thema 3: Cyflogwyr a Sgiliau

Mae ein thema olaf yn ystyried yr enghraifft y dylai'r cyngor ei gosod fel sefydliad sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym am greu

amgylchedd a diwylliant lle mae'r ddwy iaith yn cael eu hystyried yn gyfartal, a lle mae staff yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol i sicrhau dull cyson o ddatblygu gweithluoedd Cymraeg eu hiaith sy'n addas i'r diben, ac yn cydweithio i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau ledled y ddinas.

Byddwn yn:

- ✓ Gweithio â phartneriaid i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil ar draws ystod o sectorau
- ✓ Helpu i ddatblygu a chreu cyfleoedd i gefnogi pobl i ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg yn y gweithle
- ✓ Gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg i fyfyrwyr a disgyblion ledled Casnewydd
- ✓ Ymgorffori ein Polisi Sgiliau Cymraeg i brosesau perthnasol y Cyngor, a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'i gynllunio a'i ddefnydd o'r Gymraeg yn fewnol
- ✓ Gweithio gyda phartneriaid i ymgorffori'r un proffil mesur ieithyddol ar draws y sector cyhoeddus i helpu siaradwyr Cymraeg wrth wneud cais am swyddi
- ✓ Creu mannau cefnogol a diogel i bobl sydd â phob lefel o'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau

9. Ein Cynlluniau Gweithredu

Er mwyn sicrhau bod ein Strategaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol, rydym wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'n themâu craidd. Caiff y cynlluniau hyn eu monitro drwy strwythurau llywodraethiant mewnol ac allanol ac adroddir arnynt fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol ar y Gymraeg. Mae camau gweithredu yn arwydd o'n gwaith arfaethedig, ond gellir eu diwygio i ymateb i heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, ac nid ydynt yn hollgynhwysol.

A. Cymunedau a Diwylliant

Blaenoriaeth	Cam Gweithredu	Partneriaid Arweiniol / Cyfrifoldeb
Creu a chefnogi cyfleoedd cymdeithasol i bobl ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg	Datblygu prosiect 'Gall Cymunedau' gyda'r Dreigiau i ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau (Blwyddyn 1)	CDC Dreigiau Clwb Pêl-droed Casnewydd Menter Iaith Casnewydd Yr Urdd Mudiad Meithrin
	Gweithio gyda CPD Sir Casnewydd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar ddiwrnodau gemau ac o gwmpas dyddiadau sy'n arwyddocaol o ran diwylliant (Blwyddyn 1-5)	
	Parhau i gefnogi Gŵyl Newydd – Gŵyl Gymraeg flynyddol Casnewydd (Blwyddyn 1-5)	
	Datblygu Cynllun Grant Cymraeg yn y Gymuned cynaliadwy (Blwyddyn 1-5)	
Hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith i bawb	Datblygu a hyrwyddo Llyfryn Rhieni mewn amrywiaeth o ieithoedd cymunedol sy'n hyrwyddo manteision addysg Gymraeg (Blwyddyn 1-5)	CDC Aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg a'r Grŵp Hyrwyddo Rhanddeiliaid

	Creu cyfleoedd i gynulleidfaoedd anhraddodiadol weld, clywed, dysgu a defnyddio'r Gymraeg, ystyried cyfleoedd i ddod â gwahanol gymunedau ynghyd, er enghraifft trwy brosiectau rhwng cenedlaethau (Blwyddyn 1-5)	
Gweithio gyda rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw	Parhau i gefnogi Fforwm y Gymraeg ac adolygu ei aelodaeth yn barhaus er mwyn sicrhau cysylltiadau newydd (Blwyddyn 1-5) Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid cymunedol i ymgysylltu cymunedau lleiafrifoedd ethnig â'r Gymraeg (Blwyddyn 1-5)	Menter Iaith Casnewydd Yr Urdd Gŵyl Newydd Y Dreigiau Clwb Pêl-droed Casnewydd GAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent)
Hyrwyddo dwyieithrwydd / amlieithrwydd fel rhywbeth hollol naturiol	Datblygu a hyrwyddo ystod o adnoddau sy'n arddangos manteision cymdeithas ddwyieithog/amlieithog (Blwyddyn 1-5)	CDC Fforwm y Gymraeg
Cynyddu gweledigaeth y Gymraeg ar draws y Ddinas i adlewyrchu hunaniaeth Gymreig Casnewydd	Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid cymunedol i gynyddu gweledigaeth y Gymraeg mewn digwyddiadau cymdeithasol, chwaraeon a diwylliannol ledled y ddinas (Blwyddyn 1-5)	CDC Fforwm y Gymraeg Y Dreigiau Clwb Pêl-droed Casnewydd Casnewydd Fyw

B. Cyflogaeth a Sgiliau

Blaenoriaeth	Cam Gweithredu	Partneriaid Arweiniol / Cyfrifoldeb
Ymgorffori ein Polisi Sgiliau'r Gymraeg newydd ym mhrosesau perthnasol y Cyngor	Mabwysiadu a gweithredu Polisi Sgiliau'r Gymraeg, gan gynnwys cyflwyno egwyddorion Cymraeg Clir a'r fframwaith ALTE (Blwyddyn 1 a 2)	CDC
Hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil	Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu dulliau cyson o ddenu, recriwtio, cadw a datblygu gweithwyr sy'n siarad Cymraeg ar draws sectorau (Blwyddyn 1-5)	Bwrdd Sgiliau Cywir Gyrfa Cymru Aelodau RSPB Aelodau Fforwm y Gymraeg
	Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau ar draws sectorau, er enghraifft, Addysg a'r blynyddoedd cynnar (Blwyddyn 1-5)	
Creu mannau cefnogol a diogel i bobl â phob lefel o'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau	Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau bod sefydliadau ledled Casnewydd yn ymrwymo'n effeithiol i'r ddarpariaeth bresennol (Blwyddyn 1)	Menter Iaith Casnewydd CDC Bwrdd Sgiliau Cywir
	Datblygu a chreu cyfleoedd i gefnogi pobl i ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg yn y gweithle (Blwyddyn 1 - 5)	
	Sefydlu gweithgor sy'n adrodd i'r Bwrdd Sgiliau Cywir i asesu cyfleoedd cyfredol ar draws sefydliadau partner, gwneud a gweithredu argymhellion. I gynnwys ymchwilio ac archwilio cyfleoedd ar draws y sector preifat. (Blwyddyn 1 a 2)	

C. Addysg

Blaenoriaeth	Cam Gweithredu	Partneriaid Arweiniol / Cyfrifoldeb
Hyrwyddo'r manteision o addysg Gymraeg i holl gymunedau Casnewydd.	Parhau i gyfathrebu a hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i rieni (Blwyddyn 1 - 5)	CDC Fforwm Addysg Gymraeg
	Adnabod cymunedau yn nalgylch Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli a thargedu gweithgareddau hyrwyddo amlieithog (Blwyddyn 1 - 5)	
	Rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd i'r canolfannau trochi sydd ar gael mewn ysgolion cynradd Cymraeg, yn cynnwys manteision y canolfannau trochi ym Mro Teyrnon ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed fel rhan o'r pecynnau Dod yn Ddwyieithog (Blwyddyn 1 a 2)	
	Gweithio ochr yn ochr ag ysgolion Saesneg i gynorthwyo eu dilyniant drwy achrediadau Cymraeg Campus (Blwyddyn 1-5)	
	Creu adnoddau sy'n hyrwyddo darpariaethau meithrin cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yng Nghasnewydd (Blwyddyn 1 a 2)	

	Cefnogi a datblygu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a chyn-ysgol a pharhau i weithio gyda rhanddeiliaid megis Mudiad Meithein (Blynyddoedd 1-5)	
Cefnogi rhieni plant mewn addysg Gymraeg?	Parhau i gyfeirio rhieni at adnoddau sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg, datblygu deunyddiau penodol lle bo hynny'n briodol a sicrhau bod y rhain yn apelio at gynulleidfaoedd amrywiol gan gynnwys siaradwyr ieithoedd eraill a rhieni/gwarcheidwaid plant ag ADY (Blwyddyn 1-5)	CDC Fforwm Addysg Gymraeg Coleg Gwent
	Cysylltu â gwasanaethau ESOL i hyrwyddo lefel briodol o adnoddau addysg Gymraeg (Blwyddyn 1 a 2)	
Cefnogi datblygiad gweithlu a fydd yn helpu i gefnogi a chyflawni'r CSCA	Sicrhau bod disgyblion ysgolion uwchradd yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd/amlieithrwydd a bod ysgolion yn gallu hyrwyddo addysg Gymraeg fel llwybr gyrfa (Blwyddyn1-5)	CDC Fforwm Addysg Gymraeg Gyrfa Cymru Bwrdd Sgiliau Cywir
	Datblygu ymgyrchoedd hyrwyddo ar gyfer y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a gyrfaoedd addysgu yng Nghasnewydd (Blwyddyn 1 a 2)	
	Sicrhau bod staff presennol yr ysgolion Saesneg yn cael cyfle i ddysgu lefel sylfaenol o Gymraeg (Blwyddyn 1-5)	

10. Monitro Cynnydd

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r strwythurau llywodraethiant presennol i fonitro cynnydd ein Strategaeth wrth i ni geisio ymgorffori'r Gymraeg ar draws gweithgareddau busnes fel arfer. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gamau gweithredu allweddol yn ein Fforwm Cymraeg mewn Addysg a'n Grŵp Gweithredu'r Gymraeg mewnol.

Bydd Fforwm y Gymraeg hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod partneriaid yn cymryd rhan ac yn gweithio tuag at ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd, a'n Bwrdd Sgiliau Cywir wrth ymgorffori ein gwaith o amgylch cyflogwyr a sgiliau.

Bydd adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn erbyn ein themâu allweddol yn cael eu hymgorffori yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y Gymraeg a gyhoeddir erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg.

11. Gweithio Gyda Phartneriaid

Mae llwyddiant y Strategaeth hon yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth effeithiol, ac mae'r adran hon yn nodi ein partneriaid allweddol, a'r rôl y byddant yn ei chwarae wrth gyflawni ein blaenoriaethau. Byddwn yn parhau i ehangu'r ystod o bartneriaid yr ydym yn gweithio â nhw dros oes y strategaeth hon.

Grŵp Deddf

Rhwydwaith o Swyddogion y Gymraeg o bob rhan o sefydliadau'r sector cyhoeddus sydd â dyletswydd i gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg yw Grŵp Deddf. Mae ein grŵp De-ddwyrain Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer da ac i ddatblygu cysondeb rhanbarthol.

Fforwm Iaith / Welsh Language Forum

Mae Fforwm Iaith Casnewydd yn fforwm allanol a fynychir gan amrywiaeth o randdeiliaid allweddol o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Nod y grŵp yw creu fforwm ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a lledaenu arfer da. Rydym wedi ymgysylltu ag aelodau'r Fforwm wrth ddatblygu ein CSCA a'r Strategaeth hon.

Menter Iaith Casnewydd

Mae Menter Iaith Casnewydd yn ceisio cynyddu cyfleoedd i bobl o bob oed a chefndir ddefnyddio neu ddysgu'r Gymraeg yn eu cymuned leol, eu cyflogaeth a'u hyfforddiant. Mae gan y Fenter Iaith nifer o brosiectau ledled Casnewydd sy'n helpu i ymgysylltu cymunedau â'r Gymraeg.

Mudiad Meithrin

Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr o ran gofal ac addysg yn y blynyddoedd cynnar yn y sector wirfoddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Y nod yw rhoi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru gael y cyfle i fanteisio ar brofiadau gofal ac addysg yn y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r sefydliad yn cyflogi 200 o staff

yn genedlaethol, ac mae 1500 o staff ychwanegol yn gweithio mewn Cylchoedd Meithrin (cylchoedd chwarae Cyfrwng Cymraeg) ledled Cymru.

Coleg Gwent

Coleg Gwent yw coleg addysg bellach Casnewydd a phrif ddarparwr addysg cyfrwng Cymraeg i oedolion yn y sir. Mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'r coleg i gyflwyno ein dosbarthiadau Cymraeg ac i ddatblygu cyfleoedd pellach i hyrwyddo caffael y Gymraeg.

Prifysgol De Cymru / Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae Prifysgol De Cymru yn cynnig ystod eang o gyrsiau dros nifer o gampysau, ac mae un ohonynt wedi'i lleoli yng nghanol dinas Casnewydd. Maent yn bartner pwysig o ran helpu myfyrwyr a disgyblion i bontio i'w cam dysgu nesaf a pharhau i ddefnyddio eu Cymraeg.

Cymraeg i Blant (CiB)

Ariennir Cymraeg i Blant gan Lywodraeth Cymru a'i gydgysylltu gan Mudiad Meithrin. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant oedran meithrin sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'n rhannu gwybodaeth, cyngor ac yn cynnig cymorth i rieni ar fanteision dwyieithrwydd, pwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg i blant cyn gynted â phosibl a manteision addysg Gymraeg.

Yr Urdd

Mae'r Urdd, fel mudiad ieuenctid cyfrwng Cymraeg, yn canolbwyntio ar roi cyfle i bobl ifanc ddatblygu yn unigolion cyflawn. Yng Nghasnewydd, mae'r Urdd yn gweithio'n agos gyda'n hysgolion Cymraeg, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion gydol y flwyddyn. Yr Urdd yw prif drefnydd yr Eisteddfod flynyddol, ond mae hefyd yn trefnu gweithgareddau preswyl a chwaraeon i bobl ifanc.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ein nod yw gweithio'n agos gyda chydweithwyr o BIPAB drwy amrywiaeth o sianeli gan gynnwys Fforwm Mwy na Geiriau, ein Bwrdd Sgiliau Cywir Casnewydd yn Un ac yn uniongyrchol gyda'u Huned Gymraeg.

Casnewydd Fyw

Mae Casnewydd Fyw yn cynnig ac yn hwyluso chwaraeon a gweithgareddau celfyddydol o ansawdd uchel i blant, teuluoedd, ysgolion a grwpiau cymunedol ar draws Casnewydd. Mae Glan yr Afon yn ased hanfodol i Gasnewydd, ac yn ogystal â hyrwyddo a chynnal cynyrchiadau a digwyddiadau Cymraeg, mae wedi cynnal a chefnogi Gŵyl Newydd, gŵyl Gymraeg newydd Casnewydd.

Heddlu Gwent a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHT)

Mae Comisiynydd CHT dros Went a Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent yn rhannu ymrwymiad i weithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog. Mae hyn yn cefnogi gweledigaeth Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg fod yn ganolog i fywyd

bob dydd yng Nghymru a chreu cymdeithas lle gellir defnyddio'r Gymraeg mewn nifer cynyddol o gyd-destunau.

Rygbi'r Dreigiau

Mae Rygbi'r Dreigiau yn un o bedwar rhanbarth proffesiynol Cymru ac yn chwarae mewn nifer o gystadlaethau lefel uchel ac yn gartref i nifer o chwaraewyr rhyngwladol. Gan chwarae yn Rodney Parade yng nghanol Casnewydd, maent yn rhan hanfodol o'r gymuned. Yn 2019, arwyddodd Cyngor Dinas Casnewydd Bartneriaeth Gymunedol gyda'r Dreigiau i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw ledled Casnewydd.

Clwb Pêl-droed Casnewydd

Mae Clwb Pêl-droed Casnewydd bellach yn rhannu Rodney Parade gyda'r Dreigiau. Mae clwb Casnewydd yn yr Ymddiriedolaeth Gymunedol yn un o 72 o glybiau cynghrair sy'n gysylltiedig ag Ymddiriedolaeth y Gynghrair Bêl-droed, sy'n darparu prosiectau a chynlluniau chwaraeon i bawb yng Nghasnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda chlwb Casnewydd i geisio codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y ddinas fel iaith gymunedol.

12. Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith iaith Gymraeg yng Nghasnewydd, neu i roi sylwadau ar y Strategaeth hon, anfonwch e-bost at nccequality@newport.gov.uk